ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD GOGLEDD IWERDDON

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n deillio o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon.

2. Gwahoddir y Bwrdd i **nodi'r** adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon. Nid oes angen unrhyw gamau weithredu.

Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon

Cysylltwch â: Morris McAllister Ffôn: 028 9041 7716
Ebost: morris.mcallister@foodstandards.gsi.gov.uk

Ruth Watson Ffôn: 028 9041 7704
Ebost: ruth.watson@foodstandards.gsi.gov.uk

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD GOGLEDD IWERDDON

Cyfarfodydd NIFAC

1. CYnhaliwyd cyfarfod diwethaf NIFAC ar 21 Mehefin yn swyddfeydd FSANI, Belfast. Mae trosolwg o argymhellion y Pwyllgor yn dilyn:

Arolwg y DU o Safonau Hylendid mewn Safleoedd Bwyd 2005

2. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar i Charissa Poynton a Mark Woolfe, Adran Gorfodi'r FSA, a gyflwynodd ganlyniadau Arolwg y DU o Safonau Hylendid mewn Safleoedd Bwyd 2005 mewn sesiwn gaeëdig drwy fideo-gynhadledd. Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau a chyngor fel y bo'n briodol o ran y ffyrdd y gall yr Asiantaeth ddefnyddio'r canlyniadau, yn cynnwys:

   - Croesawodd y Pwyllgor y mesur trosolwg hwn ar sail 'canlyniad' o gyflwr safleoedd bwyd yn y DU ac roeddent yn hynod o falch bod 96% o Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Iwerddon wedi cydweithredu â'r astudiaeth.

   - Dylid cynnal yr arolwg yn rheolaidd gan ystyried y rheolau ystadegol priodol ar gyfer samplu cynrychiadol. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud a dylid ei fonitro yn barhaus.

   - Mae'n galonogol fod astudiaethau tebyg a gynhaliwyd yn Iwerddon yn rhoi canlyniadau sy'n debyg yn gyffredinol.

   - Dylai'r ffaith bod safleoedd arlwyo a manwerthwyr bach yn wynebu mwy o risg barhau i lywio'r gwaith ar ddiogelwch bwyd (HACCP, 4C's ac ati) a gwaith gorfodi.

   - Gellid dadansoddi'r data ymhellach i benderfynu p'un a yw cadw cofnodion yn dda yn gwella canlyniadau mewn gwirionedd, a ph'un a yw data'r Awdurdodau Lleol a gyflwynwyd i'r FSA yn adlewyrchu canlyniadau'r arolwg hwn.

   - Dylid annog yr FSA i ymchwilio ymhellach i'r Awdurdodau Lleol hynny na wnaethant gydweithredu â'r arolwg i benderfynu achosion posibl a ph'un a oes rhesymau sylfaenol dros beidio â chydweithredu.

   - Dylid defnyddio'r ffaith bod y canlyniadau hyn wedi'u cyhoeddi i greu rhagor o ymwybyddiaeth o gynnydd a wnaed ac o gynnydd sydd i'w wneud o hyd.

- Mae'r Pwyllgor yn gofyn sut y caiff agenda 'didwylledd' yr FSA ei chymhwyso i'r gwaith o gyhoeddi canlyniadau'r arolwg hwn ac mae ceisio ymagwedd gyson o ran enwau Awdurdodau Lleol a busnesau/brandiau.

Dangosyddion Perfformiad, Archwilio ac Adrodd ar Waith Gorfodi Diogelwch Bwyd Cynghorau Dosbarth yng Ngogledd Iwerddon

3. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i Barny Heywood, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Western Group, am gyflwyno'r system a gynigwyd gan Grŵp Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (CEHOG). Nod y system yw sicrhau bod y Dangosyddion Perfformiad ar gyfer gwaith gorfodi bwyd a ddarperir i Is-adran Llywodraeth Leol (LGD), Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon, yn gywir, yn gyson ac yn darparu canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau. Hoffai CEHOG ddefnyddio'r un data fel mewnbwn ar gyfer adroddiadau FSA a FVO.

4. Cytunwyd ar y canlynol:

   - Croesawodd y Pwyllgor ymdrechion Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Iwerddon i sefydlu dangosyddion perfformiad mewnol cadarn, i wella eu perfformiad eu hunain, ac i sicrhau bod eu data ar gael i ategu archwiliadau allanol yr FSA.

   - Nododd y Pwyllgor bod angen i'r FSA ddatblygu mesurau canlyniadau da ar gyfer gwaith gorfodi ar frys,y dymuna CEHOG eu defnyddio yn ei matrics cyn gynted â phosibl.

   - Dylai systemau a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol, yr FSA, ac archwiliadau allanol eraill fod yn gadarn, ond dylid eu datblygu i osgoi dyblygu costus ac anhyblygrwydd.

   - Mae'n rhaid i fframwaith archwilio diwygiedig yr Asiantaeth fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau ymarferol ar lefel leol, tra'n parhau i ddiogelu defnyddwyr yn gyson ledled y DU.

   - Anogodd y Pwyllgor swyddogion i ystyried pwysoli sgoriau yn y matrics wrth i ddata ddod i'r amlwg i gefnogi'r berthynas rhwng rhai mesurau a chanlyniadau da.

   - Er bod yr Asiantaeth yn ymrwymedig i gyhoeddi adroddiadau archwiliadau, cydnabuwyd bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a gyhoeddir fod er budd defnyddwyr fel y nodwyd ym mholisi didwylledd yr FSA.

   - Roedd yr aelodau yn awyddus bod y system rheoli perfformiad ddiwygiedig hon yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei chynnal a'i chario drosodd yn ystod y

broses o drawsffurfio o 26 i 7 Cyngor Lleol yn sgîl yr Adolygiad o Weinyddiaeth Gyhoeddus.

- Anogodd Aelodau y Pwyllgor Gwaith a CEHOG i sicrhau bod y tîm Gorfodi ym Mhencadlys yr FSA yn ymwybodol o'r gwaith hwn a'i arwyddocâd o ran yr adolygiad o Fframweithiau Gorfodi ac Archwilio.

Codi Tâl ar gyfer Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Archwilio Cig

5. Roedd yr aelodau'n ddiolchgar i Mr David Hart, Pennaeth Busnes Hylendid Cig a Chymeradwyaethau Gweithfeydd Cig, a arweiniodd y drafodaeth cyn-ymgynghori ar newidiadau posibl i'r trefniadau codi tâl presennol ar gyfer rheolaethau hylendid cig, a chyflwyno taliadau o bosibl ar gyfer Deunyddiau Risg Penodedig. Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

   - Nid yw'r FSA yn sefydliad sy'n cynnal y farchnad ac ni ddylai roi cymorthdaliadau i sefydliadau'r diwydiant wrth iddynt weithredu eu cyfrifoldeb clir dros gynhyrchu bwyd diogel.

   - Dylid sicrhau bod gwariant yn fwy cydnaws â phob un o flaenoriaethau strategol yr Asiantaeth, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gwella sgiliau bwyd defnyddwyr (diogelwch, coginio a maeth). Felly, mae'n rhaid sicrhau y gall yr Asiantaeth gadw unrhyw arbedion o newidiadau i daliadau hylendid cig i'w dyrannu i raglenni eraill yn y cynllun strategol.

   - Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag egwyddorion ehangach y Llywodraeth ar rannu costau.

   - Cynigion yr FSA ar gyfer:

     - cyflwyno taliadau uwch ar gyfer rheolaethau hylendid cig yn raddol

     - cyflwyno tâl ar gyfer rheolaethau SRM

     - tra cymeradwywyd yr egwyddor o leihau costau'r rheolaethau yn ddigamsyniol, yn ddarostyngedig i

     - asesiad cynaliadwyedd boddhaol (cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd) ym mhob un o ranbarthau'r DU ac

     - Asesiad Effaith Reoleiddiol (RIA) a ddylai ystyried y sefyllfa Ewropeaidd ehangach. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Ogledd Iwerddon sy'n rhannu ffin tir gydag Aelod Wladwriaeth arall.

- Mynegodd y pwyllgor ymhellach na ddylai cynhyrchwyr fod mewn sefyllfa lle maent yn rhoi cymorthdaliadau i Awdurdodau Cymwys sy'n arfer eu dyletswyddau statudol.

- Mae'n rhaid sicrhau bod rolaua chyfrifoldebau'r MHS a DARD yn parhau i gydredeg o ran unrhyw newidiadau a wneir i'r trefniadau presennol.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am HACCP i Aelodau NIFAC

6. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i Trevor Williamson, Pennaeth Hylendid Bwyd Cyffredinol a Digwyddiadau FSA Gogledd Iwerddon, a Kathryn Baker, Hylendid Bwyd Cyffredinol a Digwyddiadau FSA Gogledd Iwerddon, am eu cyflwyniadau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i NIFAC am weithredu Gofynion HACCP mewn safleoedd bwyd yng Ngogledd Iwerddon. I grynhoi:

    - Bu i'r Pwyllgor dderbyn a chroesawu'r arweiniad a roddwyd gan FSA Gogledd Iwerddon o ran datblygu canllawiau HACCP a'r cynnydd sylweddol a wnaed.

    - Cefnogodd y Pwyllgor ffocws yr Asiantaeth ar y sector arlwyo a busnesau bach o ran hyrwyddo HACCP. Mae llawer wedi'i gyflawni ond mae'n bryder mawr nad yw rhai safleoedd wedi gwneud unrhyw ymgais i weithredu HACCP.

    - Mae cyfyngiadau cyllidebol yn her amlwg i'r Asiantaeth. Mae'n rhaid i FSA Gogledd Iwerddon fod yn hyblyg yn ei hymagwedd i gael arian a dylai archwilio opsiynau'n ymwneud â phartneriaethau, codi tâl a nawdd ar yr amod bod yr FSA yn cadw perchnogaeth ar y cynnwys.

    - Croesawodd yr aelodau y cyfieithiadau gwahanol o becynnau HACCP a gwnaethant annog yr Asiantaeth i'w cyfieithu ymhellach, gan ehangu'r defnydd o becynnau HACCP yn y gymuned ryngwladol.

    - Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar ganllawiau HACCP ar ddigwyddiadau achlysurol, er ei bod yn glir o ganllawiau'r UE fod cryn hyblygrwydd o ran eu gweithredu.

    - Mae'n rhaid darparu'r un lefel o ddiogelwch i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ag a ddarperir i ddefnyddwyr ym Mhrydain Fawr. Croesawodd y Pwyllgor y cymorth y mae Pencadlys yr FSA wedi rhoi mewn perthynas â'r pecynnau SFBB i fanwerthwyr, ond roedd yn pryderu er bod 'Safe Catering' ar gael ar y wefan, nad oedd FSA Gogledd Iwerddon nac Awdurdodau Lleol mewn sefyllfa i ddarparu rhagor o gopïau caled oni cheir rhagor o arian.

<u>Cyfarfodydd ag Eraill</u>

7. Mae'r Cadeirydd wedi cwrdd â nifer o randdeiliaid yn ystod y cyfnod. Am fanylion, gweler papur Ymrwymiadau Aelodau'r Bwrdd rhif SO 06/07/04.

Cyfarfodydd NIFAC yn y Dyfodol

8. Disgrifir y rhaglen a'r agenda dros dro ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol isod.

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	PYNCIAU POSIBL
6 Medi	Cyfarfod agored, swyddfeydd FSA Gogledd Iwerddon, Belfast	• Nanotechnoleg (sesiwn gaeëdig)
25 Hydref 26 Hydref	Cyfarfod agored, Enniskillen Encil y Pwyllgor, Enniskillen	• I'w cadarnhau
29 Tachwedd	Cyfarfod agored, Sefydliad Amaeth Bwyd a Biowyddorau (AFBI), Belfast	• I'w cadarnhau